

GAN,

IG SYDD YN CYNNWYS

Hanes y Rhyfel diweddar,

Pr Difrod ofnadwy a wnaed.

YN AFFGHANISTIA,

Yn y Flwyddyn 1842,

Pan yr aeth y cafridog Nott i ail-gymeryd cabool, lle y lladdwyd 4000 o'n gwyr ni, drwy fradwriaeth y Brenin, Dost Mahomed. Hwn, wedi lladd y nifer a grybwyllwyd, a roddodd bedair o Wragedd ein Pen-swyddogion mewn carchar du i falu yd, a math o felin law, mewn daearegell, am bedair awr bob dydd; ac ar y dydd Sabbath, byddai yn peri eu dwyn allan i brif heol y ddinas, a datguddio eu noethni i'r werinos! ac os chwennychai neb hwynt, byddai rhaid iddynt offrymu eu cyrff i borthi blŷs eu gelynion creulawn! Pan gyrhaeddodd yr hanes am y fath driniaeth arswydus Loegr, fe gyffrodd ein grasusaf Frenhines Victoria i anfon y Cadfridog Nott, a 15000 o wyr gydag ef, i Cabool, er mynu gweled rhyddhau y gwragedd a'u plant yn gyntaf, ac yna lladd y trigolion oll, a llosgi y ddinas yn lludw i'r llawr, gan fyned yn y blaen a gwneyd yr un modd yn mhob man trwy bob talaeth berthynol i Dost Mahomed;—yr hyn hefyd a wnaed, fel y ceir clywed wrth ddarllen y Gân ganlynol, a gyfansoddwyd ar dystiolaeth yr Awdwr, JOHN RICE, yr hwn a fu yn gwasanaethu dan y cadfridog Nott, ac yn gyfranog o'r holl weithredoedd echrydus hyn, o'r dechrau hyd y diwedd.

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD, DROS YB AWDWR, GAN D. JENKINS.

1852.

CAN, &c.

1 GWRANDEWCH, fy nghyd-wladyddion, chwi'r Cymreigyddion glan,
Clywch hanes fath weithredoedd na chlywodd neb o'r bla'n ;

Er coffadwriaeth dynion ni bu'r fath greulon graith,
A wnaed yn Affghanistia, tu draw i'r India faith.

2 Pan ddaeth yr yd yn addfed i dalu'r dyled 'nol,
I Dost Mahomed greulon, a llawruddion tref Cab'ol,
Dros y pedair boneddiges—mae'r hanes yn gytûn ;
A thrwy'r fath weithred waedlyd y daeth 'rhol adfyd blin.

3 Trwy'r gelyn didrugaredd wnaeth y gwraedd brafa'u
bri

Mewn gorfod fyn'd i'r cyfil o dan anghenfil dû !
Trwy orchest yn y carchar, gyda'r fath ddialgar wawd,
A'u dwrddio mewn daeardy, tra'n porthi blÿs ei gnawd.

4 Trwy drais ac anniweirdeb, a'r fath greulondeb mawr,
Trythyllwch dynodd drallod a barn oddi uchod lawr ;
Cabool a'i holl bwerau, a'i dirfawr berlau drud,
A'r cyfan oll oedd ynddi, a ga'dd eu llosgi i gyd.

5 Ac am y gwaed diniwaid, fe losged yn Cab'ol
Bob gwr a gwraig a phlentyn, heb hedyn ar eu hól ;
'Nol dwyn y gwraedd allan, a than ein tarian ni,
Dechreuwyd talu'r dyled i'r Dost Mahomed du.*

* Tra buom ni yn tōri y porth i fyned i mewn i cabool trwy y *front*, cafodd Dost Mahomed, y brenin, gyfleusdra i ddianc allan trwy borth anwybodus i ni, o'r tu cefn i'r ddinas, gan adael y trigolion i gyd ar ei ol, a'r boneddigesau yn y carchar ; a phob un o'r trigolion na chafodd ei ladd, wrth chwilio am y carcharorion, a losgwyd pan roddwyd y ddinas ar dân. Gan mai gwelydd coed oedd i'r tai i gyd, ni welwyd erioed y fath danllwyth. Yr oeddym ni erbyn nos ail tranoeth wedi teithio 30 o filltiroedd oddiyno, ac yn gallu canfod cylch coch mawr cwmpasog yn yr awyr uwch ben Cabool. Yn mhen naw diwrnod wedi hyn daeth brenin Cabool i'n herbyn, a byddin luosog o'n gelynion o'i amgylch ; a phan adnabuwyd ei berson ar gefn ceffyl gwineu, tafliwyd *bombshell* ato, yr hon a ddisgynodd yn agos i'w geffyl, yr hyn a barodd iddo ffoi nerth traed ei anifail. Y gelynion hefyd a ddiflannasant oll : a dyma yr olwg ddiweddaf a gawsom ni ar Dost Mahomed.

6 Fe gurwyd lawr y caerau, a thrwy gynteddau'r *jail*,
Lle bu'r pedair boneddiges yn rhwym mewn lloches wael,
A'u hanwyl blant ymddifaid—O waeled oedd eu gwawr!
Ga'dd eu llawio i maes yn llawen i noddod Brydain Fawr.

7 Ond Ei gariad a'i drugaredd fu'n rhyfedd iawn i ni,
Am ein cadw a'n diogelu rhag llosgi neb o'n llu;
A'i enw a ddylem foli am galonogi 'r gâd,
I wrthod cam VICTORIA mewn gwasgfa dros ei gwlad.

8 Oddi yno ar y pebyll, ar ben y Cynnull Mawr,*
Lle bu'r gelyn melldigedig yn treiglo'r cerrig lawr,
Yn swrth o ben y mynydd, ar hyd y bronnydd serth,
Pan nad oedd lle i lechu, na gwrthwynebu eu nerth.

9 Er colli'r dydd pryd hyny, a pheri ini ffoi,
Er mwyn cael peth esmwythder ac amser i bar'toi,
Ar ben yr wyth diwrnod trwm daeth y ddyrnod hyn,
Pan aeth ein dewr fyddinoedd yn *round* oddeutu'r bryn.

10 A'r *cannons* wrth y cannoedd ddechreuodd guro'n grâs,
I gadw yr hen a'r ieuanc rhag lle i ddiane ma's;
A'r esgyll aer yn esgyn a disgyn, ol a bla'n,
A gwersyll ein gelynyon i gyd yn golofn dân!

11 'Roedd gwaed y lladdedigion yn ddigon 'beri braw,
A'r meirwon gyrff yn gorwedd yn garnedd yma a thraw,
At ugain mil o'r rhei'ny, a'u barnu i gyd o'r bron!
Boed hyn mewn coffadwriaeth gan bawb o'r dalaeth hon.

* Y Cynnull Mawr a elwid gan drigolion y wlad, y *Kytsik-huts*, sef bryn uchel iawn, a'i safiad o bob tu yn dra serth; ac ar ei ben wastadedd cyfleus i 20,000 o'u gelynyon i wersyllu. Anfonodd y cadfridog Nott 4 ysgafn-gatrawd i fynu i edrych sefyllfa y gelynyon; a phan oeddym wedi cyrhaeddyd tua hanner y ffordd i fynu, dechreuasant dreiglo cerrig mawrion ar ein penau, nes y bu gorfod arnom droi yn ol, a diane ein goreu. Ar ben yr wyth diwrnod, pan aethom i ail-ymosod ar y bryn, yr oedd cyrff ein gwyr ni, a laddwyd gan y cerrig, wedi eu tōri yn ddarnau mân i gyd, oddieithr corff un Swyddog enwog, yr hwn a gylmasant i fynu yn drianglog, ac a dorasant ymaith ei wendid, gan ei osod yn wawdus ar ei wyneb, a hyny o ddirmyg i'r cadfridog Nott. Ond buan y trôdd eu gorfoledd yn dristwch, canys pan ddechreuodd y *shy-rockets* ddisgyn yn eu gwersyll, a rhoddi eu pebyll oll ar dân, yn eu gwaith yn ceisio diane, derbynid hwy gan y *grape a'r canister shots*, nes y lladdwyd hwy bob un, pryd yr oedd eu gwaed yn rhedeg yn llifogydd ar hyd llechwedd y bryn; eithr ni laddwyd un o honom ni y dydd hwnw.

12 Dan cant a deg a deugain o filwyr Prydain Fawr
A laddwyd gan y cerrig ddaeth fel y cenllusg lawr;
Er colli'r hen gyfeillion ni aethom ar y daith,
I Ghuznee yn gywir, dros driugain milltir faith.

13 Yn hòno rhoddwyd ysgol, i esgyn pen y tŵr,
I agor pyrth y caerau nis gall'sai mab na gwr;
Cai'r cynta' aeth fynu i'r ysgol, o'r fath anferthol hyd!
Ei daro i lawr yn farwol i faith drag'wyddol fyd.

14 Fe dyllwyd dan y ddaear, a dirfawr oedd y draul,
Nes oedd yr holl seleri yn amgylchynu 'r sail;
A deuddeg baril bowdwr danfonwyd tref Ghuznee
Bob cymal drwy'r cymylau i'r awyr deneu fry.*

15 Ond un ar ddeg ar hugain roed yn y ddae'ren ddwys,
Bob un, o ben yr ysgol i'r byd trag'wyddol bwys:
'Nol gorphen hyn o weithred rhaid myned ar y daith,
Trwy ganol gwlad Kelasia, hyd oror Persia faith.

16 Ni safodd tref na phentref ar hyd y parthau hyn,
Un broes ar hyd y bröydd, na briw-wydd ar y bryn,

* Pan aethom at Ghuznee, wedi methu myned i mewn trwy ddringad ysgol, nac un modd arall, gan gadernid ei chaerau, gorchymynodd y cadfridog Nott i'r holl fyddinoedd amgylchu y ddinas o amgylch ogylech, a saethu *blank cartridge*, sef pylor heb fwledi, i wneyd digon o sŵn a mŵg, i dwyllo a dallu y gelynyon, tra bu y *miners* a'r *sappers* yn tōri level i fyned dan sylfaeni y ddinas. Cymerodd y gorchwyl hwnw ddau ddiwrnod a dwy noswaith cyn ei orphen; ac wedi rhoddi deuddeg baril o bylor yn y seleri, a than yn y *fuses*, a myned ein hunain yn ddigon pell o ffordd niwaid, cawsom deimlo y ddaear yn crynu dan ein traed, a gweled cyrff ein gelynyon megys brain yn hofran yn yr awyr yn mhlith darnau tanllyd o'r ddinas. Ar ein taith oddiyno trwy dalaeth Kelasia, daethom i ddeall fod gwybodaeth am yr hyn a wnaethom i Ghuznee wedi cyrhaedd yr holl barthau o'n blaen ni, a thrwy hyny fod y trigolion wedi gweled nad oedd wiw ymddiried i gadernid eu dinasoedd caerog; a thrwy hyny yr oeddym yn cael pob tref a phentref yn wâg o'r trigolion, y rhai oeddynt agos i gyd wedi ffoi. Bu hyn yn foddion yn llaw Rhagluniaeth i'n cadw ni rhag lladd a llosgi miloedd yn rhagor nag a wnaethom. Ond nis gadawsom dref na phentref drwy yr holl barthau heb eu llwyr ddfrodi, oddi-eithr Candahar yn unig; gwelodd y cadfridog Nott fod yn drueni distrywio hòno, o herwydd ei hardderchawgrwydd, ac y gallai hi fod o wasanaeth i Loegr yn ol llaw. Nid oedd un tŷ unig i'w weled trwy yr holl wledydd, ond dinasoedd caerog, trefydd, a phentrefydd i gyd.

Na math o adeiladaeth ar hyd y dalaeth fawr,—
Pob llan n llŷs gai 'u llosgi, a'r tyrau eu tori i lawr.

17 A dyma'r wlad greulonaŷ a'r d'wyllaf bron i gyd,
A geir mewn hanesyddiaeth er creadigaeth byd;
Yn hon mae'r Ishmaelliaid yn gwilled nos a dydd,
Fel lladron dilywodraeth, ar enw talaeth rydd.*

18 A phawb mor goel-grefyddol a grasol iawn i gyd,—
Eu cestyll a'u capelau sydd lawn o ddelwau mud;
A'u harferion 'n anarferol i bawb o'r ddynol-ryw,—
Wrth gladdu'r priod marw rhaid llosgi'r priod byw!

19 Er taro i mewn ac allan trwy drigfan pawb o'r bron,
Nid oedd na dyn na dynes tu fewn i'r ddinas hon,
Na math o ddim meddiannau, ond dylif delwau mân;
'Doedd dim i'w wnenthur weithian ond doddi ei tai ar dân.

20 At y nesaf pan dyneswyd fe'n rhoddwyd ni mewn *câr*,
I ddyrchu ein banerau uwch caerau Candahâr; †
Yn hono cafwyd nodded mewn lludded ar y daith,
I oeri gwres yr arfau wythnosau nifer saith.

* Pan ddaethom ni at brifddinas Kelasia, neu Kelat, fel ei gelwid gan y trigolion, gwelsom y parth pellaf o'r daith. Dywedodd ein cyfarwyddwr ein bod 23,000 o filltiroedd o Lundain. Dyma'r wlad a'r gelynlion gwaethaf o bob rhyw a welsom. Y rhan fwyaf o'r wlad hon sydd anialwch, a'r rhan arall ddim ond mynyddau noethlwm a thywod poeth, heb groen ar wyneb y ddaear. Y trigolion oeddynt i gyd wedi ffoi o'r brifddinas, a chymeryd eu heiddo gwerthfawrocaf gyda hwynt, heb adael dim ar eu hol ond rhyw nifer mawr o ddelwau, yn eu tai a'u capeli; yr hyn oedd yn dangos eu bod yn bobl dra chrefyddol. Hon yw y genedl sydd yn offrymu y plant i Moloch, a'r wlad lle mae y gwr yn cymeryd ei losgi yn fyw wrth gladdu y wraig, a'r wraig yr un modd wrth gladdu y gwr.

† Pan ddaethom i Candahar, yr oedd y gelynlion wedi ffoi oddiyno hefyd; ond yr oedd y ddinas yn llawn iawn o bob llun-iaeth, ac o drysorau drudfawr o bob math. Buom yno saith wythnos, yn cael ein diwallu â phob math o foethau, heb neb i'n hafonyddu. O'r diwedd daeth y tywysog Khan, mab brenin Cabool, âg o ddeutu 30,000 o wyr dan ei lywyddiaeth, ac anfonodd hêr (*challenge*) i'r cadfridog Nott i ymladd brwydr deg â dim ond *musket* am *fusket*, a gadael y *cannon* mawr a'r *train* o *artilery* oll o'r tu cefn i'r mynydd. Eithr wedi i'r gwyr traed ymladd am bedair awr, bu gorfod galw yr *artilery* i mewn, pan oeddynt ni bron ein gorchfygu, o herwydd nad oedd dim diwedd ar ddyfodiad ein gelynlion i mewn o hyd o'r mynyddoedd.

21 Mae Canda'n ddinas gaerog, a thref ardderchog iawn,
Yn cynnwys pob cynnalïaeth, darparïaeth pawb yn llawn,
Pob math o win a gwïrod i'w trafod yn ddi drai,
A ninâu mor ddbryder yn cael pleser i'w mwynhau.

22 Nes gwel'd yr holl elynïon, rïfedi gwllth y wawr,
Fel brain ar hyd y bronydd a brynïau'r mynydd mawr;
Sef holl bwerau'r dwyrain, o gwmpas deugain mil,
A th'wysog eu milwriaeth yn marchogaeth ar ei ful.

23 A'r lluoedd trwy bob chwarter yn carïo'r faner ddu;
Ond ni roisai teulu Deïfes ddim chwarters byth i ni;
Ond Syr William Nott ein noddwr, rhyfelwr doeth di
blyg,
Ro'dd faner *Hanoverian* i hongïan hyd y brig.

24 'Doedd hyd a lled y llinell, ar briddell bryn a bro,
Ond deuddeg mil o gwbl, a'r rhe'ny yn ddwbl rô;
A degain mil i'n herbryn ar hyd y penrhyn maith,
Gelyniôn creulon, craffus—arswydus oedd y gwaith.

25 Syr William Nott pan welodd fath luoedd ar y ma's,
Flaenorodd fyddin Lloegr â baner goch a glâs;
Dros bedair awr yn brysyr bu brwydr boeth ddi baid,
Heb wybod dim pryd hyny ai cael neu golli a wnaid.

26 Wrth golli câr neu gyfaill âi 'n llinell ni yn llai,
A'r g'lyniôn digyfartal bob awr yn amlhau,
Wrth y miloedd dros y mynydd, ar hyd y bronydd lawr,
Nes daeth y gwr y ceffylau â'u glân bwerau i'r glawr.

* Gallaf ddywedyd am y Khyber Pass fel y dywedodd Mr.
Williams, Pantycelyn,—

“Rwng Pihairoth â Baalsephon,
Tra b'wyf byw mi gofia'r lle,
Mewn cyfyngder eithaf caled,
Gwaeddodd f' enaid tua'r ne'.”

Ac yn yr amgylchiad yma yr oeddym ninâu, i.e. mewn mwy o
gyfyngder, efallai, nag y bu neb milwyr erïoed o'r blaen, sef
rhwng dwy graig anferth o uchder, a'r llwybr yn y gwaelod,
ddim yn lletach mewn rhai manau na lle i ddau ddyn gerdded
ochr yn ochr; tra yr oedd y gelyniôn o bob tu yn curo arnom
o ben y ddwy graig, a ninâu mewn sefyllfa mor gyfyng, fel nad
oedd genym le i wneyd defnydd o'n harfau. Tôrid ni i lawr yn
dorfeydd bob ergyd, nes yr aeth Syr Robert Sale â'r *mountain
train* i ben y graig, yr hwn a wnaeth y fath laddfa ar ein gelyn-
ïod ag na welwyd erïoed o'i bath o'r blaen. Yr oedd tri thyw-

27 A chario'r dydd o'r diwedd, er ein gorfoledd ni,
 Trwy ladd y llu banerog a chaethiwo'r marchog du;
 Er ennill buddugoliaeth ar draul marwolaeth fawr,
 Deg cant ar un diwrnod roed dan y tywod lawr.

28 Rhwng y Khyber Pass a'r Bowlin bu'r gelyn ar bob
 llaw,
 Y naill yr ochr yma a'r llall yr ochr draw;
 O graig i graig yn curo a tharo mor ddi draul,
 A ninau mor gaethiwus yn syrthio megys dail.*

29 Ond Syr Robert Sale â'i faner aeth i'r uchelder mawr,
 A'r *mountain train* a'r *cannon*, gan droi'r gelynyion lawr;
 Rhwng dirfawr dân a dwndwr, ein pen-rhyfelwr gwiw,
 Er lladd y ceffyl dano, a ddaeth oddiyno 'n fyw.

30 Er gwaetha'r holl elynion, ni aethom yn y bla'n,
 Tra'r gwaed yn llo'wr llwybrau, a than golofnau tân!
 Mi gofias am y Khyber, a'r fath gyfyngder mawr,
 A'r lladdfa aethus yno, a'r gwaed fu'n llo'wr llawr.

31 Ond am yr holl rifedi nid gwiw galaru mwy,
 Naw cant o filwyr gwrol aeth dan y marwol glwy';
 Er cofio eu claddedigaeth, a'r fath farwolaeth fawr,
 A llawer o galedi na allaf enwi yn awr.

32 Dros ddeunaw mis o amser, mewn llawer tywydd
 twym',
 Bob dydd a nos o'r flwyddyn, ein byddin oedd yn rhwym,
 Weithiau mewn rhew ac eira, ar ganol gaua' du,
 Mewn pebyll yn gwersyllu, bron sythu buom ni.

33 Wrth ysu yr holl ddinasoedd ar fath eithafoedd pell,
 Er gwneyd y fath rymusder, ni buwyd lawer gwell—
 Sef pedair tref a deugain bob cangen, heb nacâu,
 Heblaw holl gnwd y meusydd, a'u cynnydd trwm di drai.

34 'R holl *rice* a'r gwenith gafodd, a rhai gwinllanoedd
 glân,
 Eu haberthu trwy'r holl barthau yn fêg a fflamiau tân :

ysog, ag oeddynt mewn cynghrair â'r Affghanistiaid, wedi dyfod
 â'u byddinoedd i'n herbyn i'r Khyber Pass, sef tywysog gwlad
 Sind Uchaf, tywysog gwlad Sind Isaf, a thywysog Bliwjestan;
 o herwydd gwyddent y byddai rhaid i ni fyned trwy y Khyber
 Pass wrth ymadael â'u gwlad hwynt.

I draethu yr holl 'lanasdra ar dir Khanistia faith,
Pob perchen pen a thafod gaiff brofi gormod gwaith,—

35 I nodi yr holl fywydau a'r trysorau o bob rhyw :
Rhyfeddol yw fy rhwymau am fy nghadw inau'n fyw !
Derbyniwch hyn o hanes fel cyffes ddinacâd,
A draethir gan y Cymro fu draw 'n anrheithio 'r wlad.

36 Syr William Nott ein llywydd fu'n hylwydd iawn
o hyd,
Wrth wneyd yr holl 'lanasdra trwy wlad Khanistia i gyd,
Lle'r erys ei weithredoedd i'r oesoedd eto a ddaw,
Ar drefydd Affghanistia, tu hwnt i'r India draw.

37 Oddiyno yn y diwedd 'i anrhydedd gaiff ei ddwyn
O'r dwyrain a'r gorllewin i dref Caerfyrddin fwyn,
Lle ca'dd ei godi i fynu a'i ddyrchu gyda'r gâd,
Yn llywydd doeth llwyddiannus a gweddus yn mhob
gwlad ;—

38 Fu'n rhodio mewn anrhydedd dros ddeugain mlynedd
ma's,
Yn rheoli a rhyfela ar barthau 'r India frâs ;
A llywodraethu'r lluoedd trwy'r holl flynyddoedd maith,
Ac o fewn i dref Caerfyrddin daeth terfyn ar ei daith.

39 Er cludo ei glodforedd, ei lon-wedd roddwyd lawr ;
Gobeithia' ei fod yn gorphwys yn ngwlad Paradwys
'hawr.—
Os gofyn neb neu amheu pwy ro'dd y geiriau ar gân,
Chwi ellwch ateb iddo mai cywir Gymro glân,—

40 Fu draw yn Affghanistia, tu hwnt i'r India faith,
Yn gwrthod cam VICTORIA a chael y gwaetha' o'r gwaith ;
A chwedi colli'r iechyd, dychwelyd i fy ngwlad,
I dario i Aberystwyth efo tylwyth tŷ fy nhad.

JOHN RICE, mab DAVID RICE,
Aberystwyth.